**Atodiad 1**

**Bwrdd Ail-lunio Cyllideb y Cyngor**

**Amlinelliad o’r Cylch Gorchwyl**

**Diben y Rhaglen**

Gosod y cyfeiriad strategol i benderfynu ar natur a maint y Cyngor ar ddiwedd 2022/23. Bydd hyn yn cynnwys penderfynu lle y bydd y cyngor yn gostwng neu ddiddymu cyllid a chymeradwyo'r prif dybiaethau o fewn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

**Prif Ganlyniadau**

Diffinio a darparu Strategaeth Ariannol Tymor Canolig hyd at ddiwedd 2022/23.

Sicrhau y gellir gosod cyllideb gytbwys ar gyfer pob blwyddyn ariannol o fewn y rhaglen.

Cefnogi darpariaeth Blaenoriaethau Corfforaethol.

Darparu dull a reolir i ddatblygu cyngor llai wedi’i redeg yn dda

**Gweledigaeth y Rhaglen**

Sefydlu bwrdd rhaglen y Tîm Gweithredol Corfforaethol/Cabinet i osod y cyfeiriad strategol i ail-lunio’r cyngor a darparu arbedion sylweddol dros gyfnod o bedair blynedd. Bydd gwneuthuriad y Bwrdd yn caniatáu cynigion i ddarparu'r newid y gellir ei ddiffinio o safbwynt corfforaethol a gwleidyddol.

Bydd y Bwrdd yn cyfeirio gwasanaethau i ddatblygu prosiectau a chynhyrchu achosion busnes i’w hystyried gan y bwrdd. Bydd y cyfeiriad yn cynnwys gosod targedau o ran lefel yr arbedion a’r terfyn amser er mwyn cadarnhau’r cynnig a'r arbedion gwirioneddol fydd yn cael eu darparu. Gallai’r cynigion gynnwys tynnu’n ôl o rai o'r meysydd gwasanaeth yn llwyr.

Bydd hyn yn ffurfio sail rhaglen pedair blynedd yn cynnwys nifer o brosiectau. Bydd prosiectau yn seiliedig ar wasanaethau yn gyffredinol ond bydd mwy o themâu trawsbynciol yn dod i’r amlwg wrth ddatblygu'r rhaglen - yn enwedig mewn perthynas â swyddogaethau gwasanaethau cefnogi, asedau a phrosiectau thematig posibl yn canolbwyntio ar nodi cyfleoedd i leihau meysydd o wariant cyffredin.

Dylai’r prosiectau ddilyn methodoleg rheoli prosiectau corfforaethol.

Nodir yr aelodaeth graidd isod, er bydd gofyn i uwch swyddogion allweddol gynghori ar feysydd penodol fel y bo'n briodol, megis cyllid, cyfreithiol, AD, eiddo a TGCh.

**Dull Llywodraethu a Darparu**

| | |
|---|---|
| Cadeirydd / Noddwr y rhaglen | Prif Weithredwr |
| Aelodaeth | Cyfarwyddwyr Corfforaethol |
| | Arweinydd y Cyngor |
| | Aelod Cabinet Arweiniol gyda Phortffolio Cyllid |
| | Swyddog A.151 (Rheolwr Rhaglen) |

Byddai cyfrifoldebau’r Bwrdd yn cynnwys:

- Cytuno ar gyfeiriad strategol i ail-lunio’r Cyngor dros bedair blynedd
- Darparu rhaglen drawsnewid a gytunir yn cynnwys nifer o brosiectau dros gyfnod o bedair blynedd

- Dylunio rhaglen waith ac amserlen er mwyn cyflawni'r prosiectau
- Sicrhau bod risgiau a buddion yr holl brosiectau a'r cyfeiriad strategol yn cael eu deall a'u rheoli
- Sicrhau y deallir effaith ariannol y cynigion yn llawn o ran safbwynt y gwasanaeth a safbwynt corfforaethol
- Sicrhau yr ymgynghorir â'r rheoleiddwyr fel y bo'n briodol
- Sicrhau bod adnoddau digonol i ddarparu'r rhaglen
- Cytuno ar gamau gweithredu i oresgyn rhwystrau
- Cytuno ar strategaeth i gyfathrebu a chysylltu â staff, aelodau etholedig, dinasyddion a budd-ddeiliaid eraill

Byddai penderfyniadau ffurfiol yn dilyn y llwybrau cymeradwyo presennol ac felly byddai angen iddynt gydymffurfio â'r gofynion presennol o ran ymgynghori, effaith ar les ac ati. Dylai'r Cabinet gymeradwyo'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r Strategaeth sy'n tanategu diben y Bwrdd.

Byddai'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn adrodd i'r Bwrdd mewn perthynas â'r cyfeiriad a nodir, boed o ran prosiectau penodol neu o ran cyflawni unrhyw dargedau arbedion a osodir.

Bydd y Bwrdd yn penderfynu ar y broses i ddarparu'r gyllideb flynyddol, o fewn fframwaith y rhaglen pedair blynedd.

Mae rôl arfaethedig y Cadeirydd a Rheolwr y Rhaglen wedi'u nodi isod:

**Cadeirydd / Noddwr Prosiect**

- Sicrhau bod y Bwrdd yn canolbwyntio ar gyflawni'r weledigaeth a'r canlyniadau
- Sicrhau gohebiaeth briodol o'r weledigaeth a'r canlyniadau
- Sicrhau bod y Rhaglen yn parhau i alinio â Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol
- Darparu cyswllt gyda meysydd gwasanaeth i gyfeirio a rheoli prosiectau, risgiau, materion a phenderfyniadau
- Cadeirio a darparu rheolaeth strategol i'r Bwrdd
- Darparu rheolaeth weithredol o ddydd i ddydd ar gyfer y Bwrdd
- Darparu cefnogaeth i Reolwr y Rhaglen i reoli risgiau a datrys materion

**Rheolwr y Rhaglen**

- Cynllunio'r rhaglen, cynghori'r Bwrdd
- Darparu rheolaeth a monitro'r rhaglen gyffredinol
- Bod yn gyfrifol am ansawdd ac uniondeb y rhaglen
- Rheoli dibyniaethau a rhyngwynebau rhwng prosiectau
- Rheoli risgiau i ganlyniadau llwyddiannus
- Argymell camau gweithredu ychwanegol pan nodir diffygion yn y rhaglen
- Cefnogi perchnogion canlyniadau a rheolwyr prosiectau lle bo'n briodol
- Sicrhau bod prosiectau yn dilyn methodoleg rheoli prosiectau corfforaethol.
- Rheoli a monitro cynllun y rhaglen i'r Bwrdd allu olrhain, rheoli a darparu canlyniadau a buddion y rhaglen
- Nodi adolygiadau cyfran os yn briodol


Bydd angen cefnogaeth rheoli prosiect i gefnogi'r Bwrdd ac mae'r opsiynau'n cael eu hystyried ar gyfer hyn. Bydd angen cefnogaeth hefyd i ddarparu'r capasiti i gyflawni'r prosiectau newid o fewn gwasanaethau neu o unrhyw brosiectau corfforaethol trawsbynciol sy'n dod i'r amlwg.

Mae angen diffinio gweinyddiaeth papurau ac adroddiadau, arddulliau, amlder cyfarfodydd, dyddiadau cyflwyno ac ati.

Bydd angen ystyried darpariaeth ariannol i gyfrannu neu ddarparu llif arian ar gyfer cost newid gwasanaeth sylweddol.

**Rhyngddibyniaethau / cysylltiadau:**

- Holl Wasanaethau a Strategaethau Cyngor Sir Ddinbych
- Byrddau Rhaglen y Cynllun Corfforaethol
- Y Cabinet
- Yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth
- Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol
- Grŵp aelodau etholedig ehangach
- Grŵp Arweinyddiaeth (rheolwyr canol)
- Staff
- Undebau Llafur
- Strategaethau Rhanbarthol e.e. Cynnig Twf Rhanbarthol, Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol, diwygio Llywodraeth Leol ehangach
- Partneriaid a Strategaethau cysylltiedig
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych
- Grŵp Buddsoddiad Strategol
- Strategaeth Rheoli Asedau / AMG
- Strategaeth y Gymraeg
- Llywodraeth Cymru
- Rheoleiddwyr




RW 25.01.18